**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

10 Gorffennaf 2018

Annwyl Nick,

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS, 25 MEHEFIN 2018 – ADDASIADAU TAI**

Yn sgil y sesiwn dystiolaeth ar 25 Mehefin 2018, gofynnwyd i ni roi gwybodaeth i chi am y bylchau yn y modd mae Llywodraeth Cymru yn casglu data a gwybodaeth bellach ynghylch pa mor bwysig yw cael tystiolaeth i fesur effaith ymyriadau.

**Mynd i’r afael â’r bylchau**
I gychwyn, efallai y byddai’n help i mi egluro sut mae Sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVTau) yn ymwneud â'r gwaith o gasglu data a datblygu polisïau. Mae'r casgliad data Hwyluso yn casglu gwybodaeth ar addasiadau o *bob* sefydliad, mae hyn yn cynnwys LSVTau. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd gan y Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau (y Grŵp Llywio Hwyluso gynt) gynrychiolaeth cyn hyn o'r sector LSVT. Er hynny, er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o'r sector hwn, ac er mwyn cydnabod ei sefyllfa unigryw o ran darparu addasiadau i dai, gofynnwyd i gynrychiolydd LSVT ymuno â'r grŵp.

Fel y dywedwyd yn y sesiwn dystiolaeth, rydym yn cytuno bod casglu data a monitro yn faes gwaith allweddol. Rydym yn bwrw ati i wella'r maes gwaith hwnnw. Mae'r casgliad data Hwyluso wedi bod yn ei le ers mis Ionawr 2017. Ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi data o'r ffurflenni sy'n ymwneud â'r flwyddyn gyntaf. Mae'n cynnwys data sy'n ymwneud â phrofiadau dros 12,000 o unigolion. Disgwylir yr adroddiad terfynol ar y casgliad data hwn yn ystod tymor yr hydref 2018. Mae ein dadansoddiad eisoes wedi tynnu sylw at nifer o anghysondebau yn y modd y mae darparwyr gwasanaeth yn cofnodi data. Rydym wedi cymryd camau i wella cysondeb ffurflenni ar gyfer yr ail flwyddyn, gan gynnwys mynd i’r afael â’r bylchau. Bydd yr adroddiad terfynol yn helpu i lywio fersiwn nesaf y fethodoleg casglu data a gwella ein dealltwriaeth eto o berfformiad darparwyr gwasanaethau ac effaith y gwasanaethau hyn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae is-grŵp o'r Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau wedi cael ei sefydlu i ddiweddaru'r canllawiau a'r templedi, bydd hyn sicrhau bod cysondeb y ffurflenni data yn well fyth. Bydd y grŵp yn cyfarfod fis Gorffennaf ac yn anelu at gael y trefniadau gwell ar gyfer casglu data yn eu lle erbyn diwedd haf 2018.

**Mesur effeithiau**

O ran casglu tystiolaeth o effaith, a mesur yr agwedd ataliol ar addasiadau tai, fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor, mae’r meysydd hyn yn anoddach i’w mesur. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ond rhaid i ni gofio pa mor heriol yw mesur effeithiau ataliol. Un dull gweithredu sydd eisoes yn mynd rhagddo yw’r gwaith sy’n cael ei wneud gan Gofal a Thrwsio Cymru, sy’n cydweithio â banc data SAIL Prifysgol Abertawe i sefydlu tystiolaeth o effaith ei gwaith ar y defnydd o wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn fanc data cenedlaethol o setiau data iechyd a gweinyddol sy'n ddienw, ac yn ymwneud â phoblogaeth Cymru. Defnyddir y banc data i lunio a darparu tystiolaeth i wneuthurwyr polisi i wella iechyd, lles a gwasanaethau. Gall dracio pobl ddienw gan ddefnyddio ystod o setiau data i bennu sut y mae'r ymyriadau'n cael effaith ar wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae disgwyl i'r astudiaeth cyswllt gwybodaeth gynyddu ein dealltwriaeth o effaith addasiadau ar ddefnydd y gwasanaeth iechyd; yn benodol, eu heffaith ar dderbyniadau brys i'r ysbyty. Mae posibilrwydd i hyn fod yn arf pwerus i'n helpu i fesur a chofnodi tystiolaeth gref o'r effaith ataliol y mae darparu addasiadau yn ei chael. Cyn estyn y dull gweithredu hwn y tu hwnt i ddata Gofal a Thrwsio, mae angen cydweithio mwy â'r sector i sicrhau bod y ffordd bresennol o gasglu data yn briodol ar gyfer paru â data SAIL. Byddwn yn parhau i weithio drwy'r Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau i ddatblygu ein dealltwriaeth ymhellach o ran effaith ymyriadau a'r defnydd tebygol o dystiolaeth SAIL.

Yn gywir

Tracey Burke